**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ein cyfeirnod: P-04-432

20 Chwefror 2013

Annwyl Syr/Madam

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bodoli i ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gaiff eu cyflwyno gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb a ganlyn:

*Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i argymell na ddylai'r lluoedd arfog fynd i ysgolion i recriwtio.*

*Prydain yw'r unig wlad yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n caniatáu presenoldeb milwrol yn ei hysgolion. O 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd, Prydain yw'r unig wlad sy'n recriwtio plant 16 oed i'r lluoedd arfog. Mae'r lluoedd arfog yn targedu ysgolion ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru wrth recriwtio.*

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i edrych yn fwy manwl ar y mater hwn.

Hoffem glywed barn unigolion, grwpiau a chyrff am destun y ddeiseb hon. Caiff y sylwadau eu defnyddio fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau wrth iddo ystyried y ddeiseb.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed a oes gan ysgolion, disgyblion, rhieni neu rywun arall farn am y Lluoedd Arfog yn darparu cyngor gyrfaoedd neu hyfforddiant mewn ysgolion, neu a yw hwn yn wasanaeth y rhoddir gwerth arno?

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8644
E-bost: deisebau@cymru.gov.uk

Hoffai’r Pwyllgor glywed eich barn hefyd ynghylch a oes unrhyw wahaniaethau yn y modd y mae’r Lluoedd Arfog yn gweithio mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac mewn ysgolion annibynnol.

**Materion y gallech eu hystyried wrth ymateb**

- A oes gennych unrhyw bryderon am y Lluoedd Arfog yn rhoi cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion neu a ydych yn croesawu'r ffaith bod cyngor o’r fath ar gael?
- Beth yw manteision ac anfanteision bod y Lluoedd Arfog yn rhoi cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion?
- Pa effaith, os o gwbl, y byddai rhwystro’r Lluoedd Arfog rhag dod i ysgolion yn ei chael ar sicrhau bod gwybodaeth am yrfaoedd yn y lluoedd arfog ar gael i bobl ifanc?
- A oes gennych unrhyw dystiolaeth bod y Lluoedd Arfog yn targedu ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig gyda'u gweithgareddau?
- A fydd y Lluoedd Arfog yn gweithio mewn fordd wahanol mewn ysgolion annibynnol ac mewn ysgolion awdurdodau lleol?

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ei hanfon atom erbyn **dydd Mawrth 16 Ebrill 2013.** Gallwch anfon copi electronig o'ch sylwadau at deisebau@cymru.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor Deisebau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA

**Ymateb i gais i gyfrannu at yr ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad cyn penderfynu a yw am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn / haf.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr atodol anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os cawn gais gan wybodaeth o fan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**Rhestr Ddosbarthu:**

Sampl o ysgolion uwchradd – trefol, gwledig, mewn ardaloedd difreintiedig, ac ardaloedd mwy breintiedig.

Undebau Athrawon:

- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL)

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys yng Nghymru

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Gyrfa Cymru

Elusennau Plant

- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Gweithredu dros Blant
- Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc
- Barnardos Cymru
- NSPCC Cymru
- Achub y Plant

Sefydliad Joseph Rowntree

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cymdeithas Cadetiaid y Lluoedd Brenhinol yng Nghymru

Swyddfa Gyrfaoedd y Lluoedd Arfog

Grwpiau ffydd:

- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Cytûn
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
- Y Gynghrair Efengylaidd

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cyngor Bwdaidd Cymru

Cyngor Sikhiaid y DU

Reform Judaism

Cyngor Mwslemaidd Cymru

Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Orthodox Cymru

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cenhadaeth Uniongred Cymru

Archesgob Cymru

Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain

Baha'l Faith

Teml Hindŵ yr Eglwys Newydd

Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru

Teml Shree Swaminarayan

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol

Cymdeithas y Cymod (y deisebwyr)

Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Sefydliad Bevan

Oxfam Cymru

Race Equality First